## Cyfarfod Gweinidogol Grŵp y Trydydd Sector

**Nodyn o gyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tacwhedd 2019 yn Ystafell Gynadledda Tŷ Hywel**

**Yn Bresennol**

*Llywodraeth Cymru*

Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Iwan Thomas, Yr Economi Sylfaenol
Jodye Kershaw, Uwch-ddadansoddwr Polisi
Dewi Rowlands, Dirprwy Gyfarwyddwr – Polisi Trafnidiaeth, Cynllunio a Phartneriaethau
Jo Salway, Cyfarwyddwr – Partneriaeth Cymdeithasol a Gwaith Teg
Brett John, Polisi Economaidd

*Cynrychiolwyr y Trydydd Sector*

| | |
|---|---|
| Matt Brown | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Jess McQuade | Cyswllt Amgylcheddol Cymru |
| Derek Walker | Canolfan Gydweithredol Cymru |
| David Williams | Cwmnïau Cymdeithasol Cymru |
| Rhiannon Hardiman | Living Streets |
| Elwyn James | Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru |
| Clare Rudall | Busnes yn y Gymuned Cymru |
| Hazel Lloyd Lubran | Cynghorau Gwirfoddol Sirol Cymru |
| Peter Jones | Guide Dogs Cymru |

*Ymddiheuriadau*

| | |
|---|---|
| Lynne Hill | Plant yng Nghymru |
| Kate Evans | Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| Peter Williams | Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru |
| Gethin Rhys | Cyngor Rhyng-ffydd Cymru |
| San Leonard | Cwmnïau Cymdeithasol Cymru |

**Eitem 1 ar yr Agenda – Croeso a chofnodion y cyfarfod diwethaf**

1. Croesawodd y Dirprwy Weinidog aelodau gan wahodd cyflwyniadau byr. Cyfeiriodd y Grŵp at gofnodion y cyfarfod diwethaf, a chododd Derek Walker y ffaith nad oedd pwynt cyswllt ar gyfer gofal plant o fewn Llywodraeth Cymru wedi ei ddosbarthu.

***CAM GWEITHREDU: Swyddogion i ddosbarthu pwynt cyswllt o fewn Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys y polisi gofal plant.***

**Eitem 2 ar yr Agenda – Cysylltu â Busnesau Rhwydweithio**

2. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog wahoddiad i Clare Rudall (CR) siarad am y papur sydd wedi'I gynhyrchu gan Busnes yn y Gymuned (BITC).

3. Dechreuodd CR drwy bwysleisio pwysigrwydd integreiddio gwella ymhlith busnesau a'r trydydd sector, gyda'r Grŵp yn rhoi cyfeiriad clir i bwysleisio ar agenda yr Economi Sylflaenol. Dywedodd CR bod BITC yn ymwneud ag ystod eang o fusnesau o bob sector allai fod yn adnodd defnyddiol i ddatblygu amcanion yr Economi Sylfaenol. Er enghraifft, mae BITC yn annog busnesau sy'n aelodau i gefnogi eu cadwyni cyflenwi lleol, a thrwy hynny hyrwyddo cynaliadwyedd. Roedd RC yn pwysleisio'n arbennig y cynnig o fanteisio ar rwydweithiau ac adnoddau sy'n bodoli eisoes y gallai BITC eu cynnig yn y maes hwn.

4. Eglurodd CR bod ei sefydliad wedi datblygu offeryn diagnostig – y Traciwr Busnes Cyfrifol – gan roi y cyfle i rannu a dysgu o arfer gorau, a helpu i grynhoi astudiaethau achos i helpu cwmnïau eraill o wahanol faint i ddatblylgu. Mae'r traciwr – sy'n ateb y cwestiwn "pa mor gyfrifol yw fy musnes?" – yn rhoi cyfle i asesu sut i gaffael o safbwynt yr Economi Sylfaenol, gan drafod gyda'r sefydliadau sy'n aelodau o'r grŵp. Cyfeiriwyd at yr astudiaeth achos adfywio Wisbech, ble yr aethpwyd o'r ymgyrch ar lawr gwlad i gynnig am ardd-ddinas gyda chysylltiadau trafnidiaeth gwell, mwy o swyddi a gwell iechyd, addysg a hyfforddiant sgiliau i bobl leol.

**Eitem 3 ar yr Agenda – Yr Economi Sylfaenol**

5. Dywedodd y Dirprwy Weinidog mai yr her benodol ar gyfer rhagolygon yr Economi Sylfaenol bellach yw yr angen i'w brif-ffrydio a phwysleisiwyd yr angen inni asesu y data sydd ar gael er mwyn datblygu gan ysytried maint. Gofynnwyd i Derek Walker (DW) gyflwyno'r papur sydd wedi'i ddosbarthu ar gyfer trafodaethau pellach.

6. Dechreuodd DW ar ei sylwadau drwy gyfeirio at a chroesawu mentrau cymdeithasol sydd wedi'u cynnwys i dderbyn cyllid o Gronfa Her yr Economi Sylfaenol. Fodd bynnag, aeth DW ymlaen i bwysleisio bod mentrau cymdeithasol yn agenda benodol ac ni ddylid eu hystyried o ran sut y maent yn rhyngweithio â'r Economi Sylfaenol yn unig, ac fe gytunodd y Dirprwy Weinidog gyda hyn. Mae'r papur a gafodd ei ddosbarthu yn pennu y gwahaniaethau rhwng agenda polisi yr Economi Sylfaenol a 'busnesau cymdeithasol' yn fanylach.

7. Rhoddodd DW y newyddion diweddaraf I'r grŵp am waith cymunedol ymarferwyr, gan fynegi ei bryderon y dylid dysgu pryd bynnag y bo hynny'n bosibl ac y dylai unrhyw ddatblygiad fod yn gyson, gan roi pwyslais ar gynnal momentwm. Pwysleisiodd Elwyn James (EJ) bwysigrwydd dysgu o'r prosiect ac osgoi diffyg awydd i gydnabod methiannau.

8. Cododd DW y mater o gymorth ariannol yn y dyfodol ar gyfer busnesau a'r ystyriaethau ynghylch ei effaith, gan bwysleisio er nad yw mentrau cymdeithasol yn ateb y problemau sy'n cael eu hwynebu gennym, mae o angen bod yn uchelgeisiol am y posibiliadau. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at y bwlch cynhyrchiant gyda Lloegr a'r angen i weithio tuag at yr egwyddorion a amlinellir yn adroddiad yr Athro Phil Brown ynghylch arloesi wedi'i sbarduno'n ddigidol yng

Nghymru.  Mae'r Bwrdd Cynghori Gweinidogion wedi cael y dasg hefyd o fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch y 'canol coll' yng Nghymru; datblygu cwmnïau bychain yn gwmnïau canolig ac yna eu cadw yma drwy eu sefydlu o fewn cymunedau.

9. Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog ei fwriad i drefnu bwrdd crwn gydag arweinwyr benywaidd yn y maes hwn i asesu'r strategaeth ac i nodi pa waith sydd angen ei wneud eto.  Dywedodd DW bod mapio y sector ar bwnc amrywiaeth wedi dangos ei fod yn datblygu'n dda ond mae angen ystyried hyn yn fanwl yn unol â thrafodaeth y partneriaethau cymdeithasol.

10. Siaradodd JM am ei phrofiad o drafod yn y gorffennol gyda prosiectau peilot a thrwy hynny ddangos bod blaenoriaethau gwleidyddol yn newid, fodd bynnag mae'n rhaid defnyddio'r fframwaith cyfreithiol presennol fel dull o gyfarwyddo a gwerthuso'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r Economi Sylfaenol.  Awgrymodd JM bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn arbennig o berthnasol a gallai helpu i sbarduno'r gwaith a nodi bylchau.  Dywedodd y Dirprwy Weinidog y deuai canllawiau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

11. Trafododd Peter Jones (PJ) ei brofiadau gyda Bwrdd Caffael yr Awdurdod Lleol a Byrddau y Sector Cyhoeddus,  gan dynnu sylw'n benodol at yr angen am fwy o gyfeiriad a ffocws.  Cadarnhaodd Hazel Lloyd Lubran (HLL) hyn o'i phrofiad tebyg o gyfrannu at Fyrddau y Sector Cyhoeddus, ac nad oeddent yn ddigon uchelgeisiol a'r angen i gydweithio'n fwy effeithiol â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Awgrymodd HLL berthynas weithio agosach gyda Byrddau y Sector Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu agenda bolisi yr Economi Sylfaenol.

***CAM GWEITHREDU:  Y Dirprwy Weinidog a swyddogion i ystyried telerau ymgysylltu â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.***

12. Bu'r Dirprwy Weinidog yn ystyried yr egwyddor o annog swyddi gwell yn nes at adref drwy ymarfer caffael masnachol yn seiliedig ar Adroddiad TUC Cymru, yn canolbwyntio'n bennaf ar fynd i'r afael â chymunedau bregus.  Cododd y Dirprwy Weinidog yr egwyddor o ail-gyfeirio'r gwariant i warchod rhai rhannau o'r gweithlu drwy ail-asesu caffael masnachol.  Nodwyd yr enghraifft o Lyn Ebwy yn defnyddio'r gwaith a oedd yn gysylltiedig â chreu gwisgoedd GIG Cymru gan arwain at gyflogi 50 o bobl.   Yn yr achos hwn, cafodd y cludiant ei nodi yn rhwystr posibl i waith ac felly yr ateb oedd i roi'r gwaith yn agos at orsaf drenau. Roedd datblygu hyn a meysydd gwaith tebyg gan ystyried yr economi gylchol yn cael ei ystyried fel yr ateb gorau posibl.

13. Crybwyllodd David Williams (DWs) drafodaeth ddiweddar a gafodd gyda busnes mawr a'i ymgais i fynd i'r afael â'u dryswch o ran sut y maent yn gysylltiedig ag agenda bolisi yr Economi Sylfaenol.  Ystyriodd y Dirprwy Weinidog yr angen i drafod y polisi yn effeithiol gyda sefydliadau ledled Cymru.

    ***CAM GWEITHREDU:  Swyddogion i ddosbarthu llenyddiaeth ynghylch yr Economi Sylfaenol i aelodau ei ddosbarthu i fusnesau a sefydliadau eraill.***

**Eitem 4 ar yr Agenda – Newyddion diweddaraf**

*Partneriaeth Cymdeithasol*

14. Gwahoddodd y Dirprwy Weinidog Jo Salway (JS) i gyfrannu. Eglurodd JS i'r grŵp bod dogfen ymgynghori wedi ei chyhoeddi. Mae'r maes gwaith hwn yn cael ei ddatblygu o ganlyniad i faniffesto arweinyddiaeth y Prif Weinidog sy'n cysylltu gyda'r amcanion llesiant o fewn deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

***CAM GWEITHREDU: Swyddogion i ddosbarthu'r ddolen i'r ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ar gyfer y Bil Partneriaeth Cymdeithasol.***

15. Pwysleisiodd JS bod y gwaith hwn yn golygu symud i ffwrdd o agwedd 'swyddi o flaen popeth' i ddealltwriaeth mwy cynhwysfawr o swyddogaeth swyddi ym mywydau pobl ac asesu safbwynt Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu agenda o'r fath. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgogiadau presennol neu ddylanwadu ar gwmnïau preifat i gael effaith ar y maes gwaith hwn. Hefyd, mae'r ddeddfwriaeth yn anelu at roi dyletswydd ar gyrff y sector cyhoeddus i adlewyrchu egwyddorion gweithio teg a theilwng.

16. Dywedodd JS bod y gwaith ar y gweil o ran telerau datblygu Cyngor Partneriaeth Cymdeithasol, ac adeiladu ar lwyddiant grwpiau fel y Cyngor Datblygu Economaidd. Mae swyddogaeth y Comisiwn Gwaith Teg yn bwysig wrth gyfeirio yr agenda a'r polisïau. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at y ffaith bod y gwaith hwn yn ategu'n effeithiol y contract economaidd a'r egwyddor o 'gael rhywbeth am rywbeth'.

17. Pwysleisiodd DW rôl y trydydd sector fel cyflogwr sy'n datblygu a'r angen iddynt fod yn rhan o ddatblygu'r gwaith hwn. Tynodd HLL sylw hefyd at yr angen i gyfrannu at hyn.

*Strategaeth Trafnidiaieth Cymru*

18. Dywedodd Dewi Rowlands (DR) i'r strategaeth olaf yn gysylltiedig ag amcanion trafnidiaeth gael ei gyyhoeddi yn 2008 ac felly bydd y dull newydd sy'n cael ei ddatblygu yn golygu newid mewn steil a chyfeiriad yn ddi-os. Bydd y ffocws yn bennaf ar unigolion a sut y gallant symud o amgylch mor syml â phosibl, gan gael effaith bositif ar lesiant ac ystyriaethau amgylcheddol. Caiff y strategaeth – fydd yn hwyluso system drafnidiaeth sy'n addas at y dyfodol – yn cael ei hystyried gan y Cabinet ar y cychwyn i gael arweiniad ar y camau nesaf, gyda phroses ymgynghori i'w dechrau ar ddiwedd y gwanwyn a'r cyhoeddi ar ddiwedd 2020.

19. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y bydd y strategaeth yn cael ei chynnwys o fewn dogfen sydd wedi ffocysu mwy nag yn y gorffennol ac y bydd yr argyfwng newid hinsawdd y mae Cymru wedi'i ddatgan yn ysgogwyr pwysig i'w ystyried. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi datgan nad yw trafnidiaeth o bosib yn mynd i'r cyfeiriad mwyaf effiethlon, gan adlewyrchu y pryder ehangach ynghylch faint o'r gyllideb drafnidiaeth sydd wedi'i dyrannu i ffyrdd. Fodd bynnag, pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog bod y penderfyniad ynghylch ffordd liniaru yr M4, a sefydlu Comisiwn Burns wedi hynny, yn dangos symudiad amlwg o ran ystyriaethau Llywodraeth Cymru ynghylch materion trafnidiaeth. Dywedodd JM y

bydd angen i ddatblygiadau mewn trafnidiaeth ystyried natur Cymru o ran ei chymunedau trefol a gwledig, gan fynegi yr angen i beidio â mabwysiadu dull cyffredinol i bawb. Cododd JM, wrth ystyried natur gryno y strategaeth ddatblygu, y broblem o'r diffyg manylion posibl. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog sicrwydd y bydd targedau penodol a mwy o fanylioni i ategu'r strategaeth – megis yr amcanion dros deithio llesol.

***CAMAU GWEITHREDU: Swyddogion i ddosbarthu targedau ar deithio llesol***

Dywedodd PJ ei fod yn pryderu ynghylch datblygu ymrwymiad ar gyfer hyfforddiant orfodol i yrwyr tacsis. Dywedodd DR y cafwyd ymateb da i'r Papur Gwyn a bod pryderon nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell ac felly yn cael eu hadolygu. Mae'r trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda defnyddwyr i fireinio'r syniadau o ran yr hyn sydd ei angen, gan bwysleisio nad yw y gwaith yn gysylltiedig â tacsis wedi ei anghofio. Dywedodd PJ hefyd ei fod yn pryderu ynghylch grŵp trafod trafnidiaeth Llywodraeth Cymru sydd heb gyfarfod ers yr haf 2018 a rhoddodd DR sicrwydd bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i drafod gyda'r rhanddeiliaid perthnasol wrth ddatblygu blaenoriaethau a pholisïau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.

***CAMAU GWEITHREDU: Y Dirprwy Weinidog a swyddogion i ystyried hyfforddi gorfodol i yrwyr tacsis.***

**Blaenoriaethau cylldieb yr Economi a Thrafnidiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaw**

**20.** Bu'r Dirprwy Weinidog yn ystyried gwaith swyddogion Llywodraeth Cymru sydd o dan bwysau sylweddol, gan nodi y bydd ystyriaeth yn parhau i gael ei roi i warchod meysydd gwariant sy'n flaenoriaeth.

**Gwaith yr Effaith ar yr Amgylchedd**

21. Bu'r grŵp yn ystyried y papur a gafodd ei gyflwyno i is-grŵp Cynghori Gweinidogion ar yr Economi Sylfaenol ym mis Ebrill 2019 gan WWF. Dywedodd JM y byddai cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig o ran agenda yr Economi Sylfaenol, yn cael ei groesawu cyn y digwyddiadau sydd i'w cynnal yn 2020. Dywedodd y Dirprwy Weinidogion ei fod yn cefnogi a'i awydd i helpu i gynnwys ystyriaethau amgylcheddol o fewn gwaith yr Economi Sylfaenol.

**Unrhyw Fusnes Arall**

22. Cytunodd y Grŵp i gynnal cyfarfod arall yn ystod y gwanwyn. Daeth y Dirprwy Weinidog â'r cyfarfod i ben.

***CAMU GWEITHREDU: Swyddogion i gysyslltu â CGGC ynghylch trefniadau y cyfarfod nesaf.***